**GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG**

**210 - Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio) (Ymadael â’r UE) 2020**
*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 9 Rhagfyr 2020*

| **Sifftio** | |
|---|---|
| A fydd angen eu sifftio yn Senedd y DU? | Na fydd |
| Gweithdrefn: | Cadarnhaol drafft |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | Amherthnasol |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Amherthnasol |
| Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | Amherthnasol |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (SICM) o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Dim angen |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Amherthnasol |
| Gweithdrefn | Cadarnhaol drafft |
| Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Anhysbys |

**Cefndir**
Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adrannau 8(1) ac 8C o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21 o Atodlen 7 iddi.

**Crynodeb**
Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud cywiriadau a diwygiadau technegol i gyfraith uniongyrchol yr Undeb Ewropeaidd (yr UE) a ddargedwir a deddfwriaeth ddomestig er mwyn mynd i'r afael â methiannau cyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol ac i sicrhau bod y Deyrnas Unedig (y DU) yn cyflawni ei rhwymedigaethau o dan y Protocol ar Iwerddon/Gogledd Iwerddon yng Nghytundeb Ymadael yr UE ('y Protocol') sy'n ofynnol ar ddiwedd y Cyfnod Gweithredu, mewn perthynas ag iechyd planhigion.

Mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio’r ddeddfwriaeth ganlynol:
Deddfwriaeth yr UE

- Rheoliad (UE) 2016/2031 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 26 Hydref 2016 ar fesurau diogelu yn erbyn plâu planhigion; a
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2017/2313 ar 13 Rhagfyr 2017 yn nodi manyleb fformat pasbortau planhigion ar gyfer symud planhigyn o fewn tiriogaeth yr Undeb a phasbortau planhigion i gyflwyno planhigyn i barth gwarchodedig a'i symud o fewn parth gwarchodedig.

Is-ddeddfwriaeth ddomestig

- Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Lloegr) 2019.

**Datganiad gan Lywodraeth Cymru**

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 14 Rhagfyr 2020 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

**Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)**

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.